



PANELDINAS Y DDION CAERDYDD

Mehefin 2021

Croeso

Yn y rhifyn hwn, rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon ar Adfer ac Adnewyddu'r Ddinas, y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI), datblygiad Glanfa'r Iwerydd ym Mae Caerdydd ac Arolwg Teithio Llesol.

Yn olaf, os oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu am y cylchlythyr, mae croeso i chi anfon e-bost atom ni a byddwn yn ychwanegu ychydig o ddyfyniadau yn y rhifyn nesaf. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Adfer ac Adnewyddu'r Ddinas

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith eithriadol ar Gaerdydd, gan newid y ffordd rydym yn byw ein bywydau a sut rydym yn gwneud busnes mewn ffyrdd na allai llawer ohonom fod wedi'u dychmygu.

Wrth i'r ddinas wella o'r pandemig, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y camau y mae angen i ni eu cymryd nesaf i gyflymu adferiad, gan gydnabod ar yr un pryd fod angen inni ddefnyddio'r argyfwng fel catalydd i adeiladu'n ôl yn gryfach, yn wyrddach ac yn decach.

Mae'r strategaeth ar gyfer Adfer ac Adnewyddu yn nodi cyfres o deithiau allweddol i gyflawni cam nesaf datblygiad y ddinas, ac rydym yn awyddus i glywed eich barn ar y cynlluniau.

Saesneg

Cymraeg



Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd yn helpu i siapio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir, gan ddod â buddion i gymunedau a'r economi a nodi pa ardaloedd y mae angen eu diogelu.

Mae'r Cyngor newydd ddechrau'r broses o baratoi CDLI newydd ac yn awyddus i gael eich barn ar y ddogfen ddrafft Gweledigaeth, Materion ac Amcanion ar gyfer y cynllun, a rhai o'r materion mawr y bydd angen i'r cynllun eu hystyried, fel twf tai, dyfodol y byd gwaith a theithio a sut mae Caerdydd yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Rydym yn ymgynghori'n gynnar yn y broses i rannu ein syniadau cychwynol a rhoi amser i ystyried sylwadau cyn camau pellach y broses ymgysylltu.

Cynlluniwyd yr arolwg i gael eich sylwadau a gwneud i bobl ddechrau ystyried y cydbwyseddau y bydd rhaid i'r cynllun eu hystyried er mwyn creu trafodaeth a dealltwriaeth yn hytrach nag atebion cywir neu anghywir.

Saesneg

Cymraeg

Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu creu un o gyrchfannau ymwelwyr dinas gorau'r Deyrnas Gyfunol yng Nglanfa'r Iwerydd, Butetown, Caerdydd, lle i fyw, gweithio, chwarae, ymlacio a chael hwyl yno. Y nod yw cysylltu Bae Caerdydd â'r ddinas yn well a thyfu'r economi drwy wneud gwell defnydd o'r tir ac mae angen eich help arnom i lunio'r datblygiad.

Mae'r uwchgynllun yn cynnig creu sgwâr cyhoeddus newydd, arena newydd, maes parcio aml-lawr ac ailddatblygu Canolfan Red Dragon i greu canolfan fanwerthu a hamdden, swyddfeydd newydd, dau westy newydd a 1,100 o gartrefi newydd. Caiff hyn ei gefnogi gan gysylltiadau trafniadaeth estynedig i'r Ddinas a Llanelwng a chanolfan drafnidiaeth newydd yn y Bae.

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar brosiect ymchwil i ddeall mwy am sut mae pobl yn teithio a symud o gwmpas Caerdydd, eu barn ar y seilwaith teithio yng Nghaerdydd ac i hyrwyddo teithio llesol. Mae cyfran o £250 yn cael ei rhoi i dair elusen yng Nghaerdydd. Byddwch yn gallu pleidleisio dros eich elusen o ddewis ar ddiwedd yr arolwg.

Saesneg

Cymraeg

Saesneg

Cymraeg



Oes gennych unrhyw syniadau eraill ar sut i wella'r PANEL?

Rydym yn chwilio am syniadau i ddeall sut allwn wella'r Panel ar gyfer ein haelodau. Pam mae cyfrannu'n bwysig

Mae'n hanfodol i ni gael eich sylwadau gwerthfawr oherwydd yn aml bydd rhai o'r awgrymiadau gorau yn dod gan ein haelodau.

Os oes gennych rywbeth yr hoffech ei rannu, cysylltwch â Stephen: stephen.oreilly2@cardiff.gov.uk



Rydym yn gwerthfawrogi bod gan bawb fywydau prysur ac mae'n bosib fod llawer wedi newid ers i chi ymuno. Gyda hyn mewn golwg dyma'ch gwahodd i newid eich manylion drwy'r ddolen isod

[Link yma](#)

Cysylltwch â ni ar y safleoedd cyfryngau!



CLICIWCH YMA



CLICIWCH YMA



[dad-danysgrifio o restr](#)

STEPHEN.OREILLY2@CAERDYDD.GOV.UK